CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1269 (Cy.89)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1269 (W.89)

AGRICULTURE, WALES

The Tir Mynydd (Wales) (Amendment) Regulations 2005

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 5 Mai 2005, yn diwygio Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001 ("y prif Reoliadau") er mwyn:

(a) gwneud diwygiadau canlyniadol yn sgil newidiadau i'r polisi amaethyddol cyffredin o ran y Cynllun Taliad Sengl.

(b) darparu y gellir gwneud taliadau Tir Mynydd i geiswyr a gafodd Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel ar gyfer Lwfansau cynllun blwyddyn 2000 hyd yn oed os nad ydynt wedi hawlio cymorth da byw o ran defaid neu fuchod sugno neu'r ddau yn ystod y flwyddyn y cyflwynir y cais Tir Mynydd (Rheoliad 4(4)).

(c) tynnu rheoliad 8(b) er mwyn osgoi'r posibiliad o gyllido dwbl (Rheoliad 6).

(ch) sicrhau bod cymhwyster ar gyfer y cynllun yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Ymarfer Ffermio Da a nodir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000 - 2006, a gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu system o gosbau cymesur a fydd yn gymwys mewn achosion pan na chydymffurfir â'r Cod. (Rheoliad 4(3) a Rheoliad 8).

(d) darparu ar gyfer mân newidiadau a newidiadau yn y diffiniadau o ganlyniad i'r diwygiadau a nodir uchod.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations, which come into force on 5 May 2005, amend the Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001 ("the Principal Regulations") so as to:

(a) make consequential amendments as a result of changes to the common agricultural policy with regard to the Single Payment Scheme.

(b) provide that Tir Mynydd payments may be made to claimants who received Hill Livestock Compensatory Allowances for the 2000 scheme year even if they have not claimed livestock aid in relation to sheep or suckler cows or both during the year in which the Tir Mynydd claim is submitted (Reg 4(4)).

(c) remove Regulation 8(b) so as to avoid the potential for double funding (Reg 6).

(d) make scheme eligibility subject to compliance with the provisions of the Code of Good Farming Practice set out in the Rural Development Plan for Wales 2000 - 2006, and to make provision for the establishment of a system of proportionate penalties to be applied in cases of non compliance with the Code (Reg 4(3) and Reg 8).

(e) provide for minor and definitional changes consequent upon the amendments detailed above.

2005 Rhif 1269 (Cy.89)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud	*4 Mai 2005*
Yn dod i rym	*5 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005. Deuant i rym ar 5 Mai 2005 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001

2. Diwygir Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001(**3**) yn unol â rheoliadau 3 i 9 o'r Rheoliadau hyn.

3. Yn rheoliad 2 (Diffiniadau), ym mharagraff (1) -

(a) dileer y diffiniad o "cais am gymorth arwynebedd" ("*area aid application*");

(b) yn y diffiniad o "arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano" ("*claimed forage area*") yn lle'r geiriau "cais am gymorth ardal" rhodder y geiriau "cais sengl";

(c) mewnosoder y diffiniadau canlynol yn eu lle priodol yn nhrefn yr wyddor -

"ystyr "Cod Ymarfer Ffermio Da ("*Code of Good Farming Practice*") yw'r darpariaethau Ymarfer

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) (O.S. 1999/2788) ("y Gorchymyn").

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 2001/496 (Cy.23) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1154 (Cy.61) ac O.S. 2002/1806 (Cy.176).

2005 No. 1269 (W. 89)

AGRICULTURE, WALES

The Tir Mynydd (Wales) (Amendment) Regulations 2005

Made	*4 May 2005*
Coming into force	*5 May 2005*

The National Assembly for Wales, being designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2), hereby makes the following Regulations:

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Tir Mynydd (Wales) (Amendment) Regulations 2005. They come into force on 5 May 2005 and apply in relation to Wales.

Amendment of the Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001

2. The Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001(**3**) are amended in accordance with regulations 3 to 9 of these Regulations.

3. In regulation 2 (Definitions), in paragraph (1) -

(a) the definition of "area aid application" ("*cais am gymorth arwynebedd*") is deleted;

(b) in the definition of "claimed forage area" ("*arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano*") for the words "an area aid application" substitute the words "a single application";

(c) insert the following definitions in the appropriate place in accordance with the alphabet -

(**1**) By virtue of the European Communities (Designation) (No. 3) Order (S.I. 1999/2788) ("the Order").

(**2**) 1972 c.68.

(**3**) S.I. 2001/496 (W.23) as amended by S.I. 2001/1154 (W.61) and S.I. 2002/1806 (W.176).

Ffermio Da a nodir yn adran 9.1 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000 - 2006(**1**);

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 796/2004" ("*Commission Regulation 796/2004*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 796/2004(**2**) sy'n gosod rheolau manwl ar drawsgydymffurfio, modwleiddio a'r system integredig gweinyddu a rheoli y darperir ar ei chyfer yn Rheoliad y Cyngor 1782/2003;";

(ch) rhodder y diffiniad canlynol yn lle'r diffiniadau o "Rheoliad y Comisiwn 1750/1999" ("*Commission Regulation 1750/1999*") -

""ystyr "Rheoliad y Comisiwn 817/2004" ("*Commission Regulation 817/2004"*) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 817/2004(**3**) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 ar gymorth i ddatblygu gwledig o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF);";

(d) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor -

""ystyr "Rheoliad y Cyngor 1254/1999" ("*Council Regulation 1254/1999*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1254/1999(**4**)1254/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn cig eidion a chig llo;";

(dd) dileer y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor 3508/92" ("*Council Regulation 3508/92*");

(e) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor -

""ystyr "Rheoliad y Cyngor 1782/2003" ("*Council Regulation 1782/2003*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003(**5**) sy'n pennu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n pennu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr;";

(f) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor -

""ystyr "Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel" ("*Hill Livestock Compensatory Allowances*") neu ("HLCA") yw lwfansau a delir o dan y Rheoliadau Da Byw Tir Uchel (Lwfansau Iawndal);";

(1) Paratowyd ef gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef gan y Comisiwn Ewropeaidd yn gyntaf ar 11 Hydref 2000 drwy Benderfyniad y Comisiwn C(2000) 2932 gydag addasiadau dilynol a gymeradwywyd gan Benderfyniadau'r Comisiwn C(2002) 1743 a C(2003) 1432.

(2) OJ Rhif L141, 30.4.2004, t.18, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 239/2005 (OJ Rhif L042, 12.2.2005, t.3).

(3) OJ Rhif L153, 30.4.2004, t.30, fel y mae wedi'i gywiro gan Gywiriad (OJ Rhif L231, 30.6.2004, t.24).

(4) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.21, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1899/2004 (OJ Rhif L328, 30.10.2004, t.67).

(5) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 118/2005 (OJ Rhif L024, 27.1.2005, t.15).

""Code of Good Farming Practice" (" *Cod Ymarfer Ffermio Da*") means the Good Farming Practice provisions set out in section 9.1 of the Rural Development Plan for Wales 2000 - 2006(**1**);

"Commission Regulation 796/2004" ("*Rheoliad y Comisiwn 796/2004*") means Commission Regulation (EC) No 796/2004(**2**) laying down detailed rules for the implementation of cross-compliance, modulation and the integrated administration and control system provided for in Council Regulation 1782/2003;";

(d) substitute the following definition for the definition of "Commission Regulation 1750/1999" ("*Rheoliad y Comisiwn 1750/1999*") -

""Commission Regulation 817/2004" ("*Rheoliad y Comisiwn 817/2004*") means Commission Regulation (EC) No 817/2004(**3**) laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 1257/1999 on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF);";

(e) insert the following definition in the appropriate place in accordance with the alphabet -

""Council Regulation 1254/1999" ("*Rheoliad y Cyngor 1254/1999*") means Council Regulation (EC) No 1254/1999(**4**) on the common organisation of the market in beef and veal;";

(f) the definition of "Council Regulation 3508/92" ("*Rheoliad y Cyngor 3508/92*") is deleted;

(g) insert the following definition in the appropriate place in accordance with the alphabet -

""Council Regulation 1782/2003" ("*Rheoliad y Cyngor 1782/2003*") means Council Regulation (EC) No 1782/2003(**5**) establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers;";

(h) insert the following definition in the appropriate place in accordance with the alphabet -

(1) Prepared by the National Assembly for Wales and approved by the European Commission initially on 11 October 2000 by way of Commission Decision C(2000) 2932 with subsequent modifications approved by Commission Decisions C(2002) 1743 and C(2003) 1432.

(2) OJ No. L141, 30.4.2004, p.18 as last amended by Commission Regulation (EC) No. 239/2005 (OJ No. L042, 12.2.2005, p.3).

(3) OJ No. L153, 30.4.2004, p.30 as corrected by a Corrigendum (OJ No. L231, 30.6.2004, p.24).

(4) OJ No. L160, 26.6.1999, p.21 as last amended by Commission Regulation (EC) No. 1899/2004 (OJ No. L328, 30.10.2004, p.67).

(5) OJ No. L270, 21.10.2003, p.1 as last amended by Commission Regulation (EC) No. 118/2005 (OJ No. L024, 27.1.2005, p.15).

(ff) rhodder y diffiniad canlynol yn lle'r diffiniad o "IACS" -

"ystyr "IACS" yw System Integredig Gweinyddu a Rheoli a sefydlwyd o dan Bennod 4 o Reoliad y Cyngor 1782/2003;";

(g) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor -

"mae i "cais sengl" yr ystyr a roddir i "single application" yn erthygl 2(11) o Reoliad y Comisiwn 796/2004;".

""Hill Livestock Compensatory Allowances" ("*Lwfansau Iawndal Da Byw*") or "HLCA" means allowances paid under the Hill Livestock (Compensatory Allowances) Regulations;";

(i) substitute the following definition for the definition of "IACS" -

""IACS" means the Integrated Administration and Control System established under Chapter 4 of Council Regulation 1782/2003;";

(j) insert the following definition in the appropriate place in accordance with the alphabet -

""single application" ("*cais sengl*") has the meaning given to it in Article 2(11) of Commission Regulation 796/2004;".

4. Yn rheoliad 3 (Ceiswyr cymwys), ym mharagraff (1) -

(1) yn is-baragraff (a), yn lle'r geiriau "cais dilys am gymorth arwynebedd" rhodder y geiriau "cais sengl dilys";

(2) yn is-baragraff (b) -

(a) o flaen y geiriau "y ceisydd" mewnosoder y geiriau "yn ddarostyngedig i is-baragraff (d) isod,";

(b) ar ôl y geiriau "wedi cyflwyno cais" mewnosoder y gair "dilys";

(c) yn lle'r geiriau "mewn perthynas â'r flwyddyn" mewnosoder y geiriau "mewn perthynas â chynllun blwyddyn 2004";

(ch) dileer y geiriau "y cyflwynwyd cais yn ei chylch am daliad Tir Mynydd".

(3) Yn is-baragraff (c) ar ôl y geiriau "ffermio cynaliadwy" mewnosoder y geiriau "ac wedi cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Ymarfer Ffermio Da".

(4) Ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder yr is-baragraff canlynol -

"(d) gofyniad is-baragraff (b) uchod ynghylch cyflwyno cais dilys am gymorth ar gyfer da byw heb fod yn gymwys -

(i) os yw'r ceisydd wedi gwneud cais ac wedi derbyn Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel am y flwyddyn 2000 ac os yw wedi gwneud cais ac wedi derbyn taliad Tir Mynydd ar gyfer pob blwyddyn ar ôl hynny; neu

(ii) os nad yw'r ceisydd cyn hynny wedi gwneud cais am daliad Tir Mynydd.".

4. In regulation 3 (Eligible claimants), in paragraph (1) -

(1) in sub-paragraph (a), for the words "area aid" substitute the word "single";

(2) in sub-paragraph (b) -

(a) before the words "the claimant" insert the words "subject to sub-paragraph (e) below,";

(b) after the words "has submitted a" insert the word "valid";

(c) before the word "year" insert the words "2004 scheme";

(d) delete the words "for which a claim has been submitted for a Tir Mynydd payment".

(3) In sub-paragraph (c) after the words "sustainable farming" insert the words "and has complied with the provisions of the Code of Good Farming Practice".

(4) After sub-paragraph (d), there is inserted the following sub-paragraph -

"(e) the requirement of sub-paragraph (b) above concerning the submission of a valid claim for livestock aid does not apply where -

(i) the claimant claimed and received Hill Livestock Compensatory Allowances for the year 2000 and has claimed and received a Tir Mynydd payment for every subsequent intervening year; or

(ii) where the claimant has not previously claimed a Tir Mynydd payment.".

5. Yn rheoliad 4 (Y dwysedd stocio isaf), ym mharagraff (1) -

5. In regulation 4 (Minimum stocking density), in paragraph (1) -

(1) ar ôl y geiriau "rhaid bod" mewnosoder y geiriau "wedi bod";

(2) ar ôl y geiriau "am bob hectar" mewnosoder y geiriau "ar sail nifer y defaid a/neu fuchod sugno a oedd yn denu premiwm o dan y cynllun premiwm blynyddol defaid a/neu'r cynllun Premiwm Buchod Sugno ar gyfer cynllun blwyddyn 2004".

6. Yn rheoliad 8 (Categorïau sy'n gymwys ar gyfer y taliad chwyddo amgylcheddol), dileer paragraff (b).

7. Yn rheoliad 10 (Ceisiadau) -

(1) dileer paragraff (2);

(2) ym mharagraff (3), yn lle'r geiriau " Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2419/2001 dyddiedig 11 Rhagfyr 2001 sy'n cyflwyno rheolau manwl er mwyn cymhwyso'r system integredig gweinyddu a rheoli ar gyfer rhai cynlluniau o blith Cynlluniau cymorth y Gymuned a sefydlwyd gan Reoliad y Cyngor 3508/1992" rhodder y geiriau "Erthygl 21 o Reoliad y Comisiwn 796/2004".

8. Ar ôl rheoliad 13 (Cadw'n ôl neu adennill taliadau) mewnosoder y rheoliad canlynol -

"Cymhwyso cosbau

13A. Yn unol ag Erthygl 73 o Reoliad y Comisiwn 817/2004 bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu, a chyhoeddi yn y dull y gwêl yn dda, system o gosbau cymesur a fydd yn gymwys mewn achosion os bydd y ceiswyr yn methu cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau hyn.".

9. Yn rheoliad 16 (Pwerau personau awdurdodedig) ym mharagraff (3) -

(1) yn is-baragraff (c), dileer y gair "ac";

(2) yn is-baragraff (ch), yn lle'r marc atalnodi "." rhodder y marc atalnodi a'r gair "; a"; a

(3) ar ôl is-baragraff (ch), mewnosoder yr is-baragraff canlynol -

"(d) cyflawni unrhyw arolygiad neu archwiliad sy'n angenrheidiol at ddibenion penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Cod Ymarfer Ffermio Da.".

(1) after the words "holding must have" there is inserted the word "had";

(2) after the words "units per hectare" there is inserted the words "on the basis of the number of sheep and/or suckler cows that attracted premium under the sheep annual premium scheme and/or the Suckler Cow Premium scheme for the 2004 scheme year".

6. In regulation 8 (Categories that qualify for the environmental enhancement), paragraph (b) is deleted.

7. In regulation 10 (Claims) -

(1) paragraph (2) is deleted;

(2) in paragraph (3), for the words "Article 13 of Commission Regulation (EC) No. 2419/2001 of 11 December 2001 laying down detailed rules for applying the integrated administration and control system for certain Community aid schemes established by Council Regulation 3508/92" substitute the words "Article 21 of Commission Regulation 796/2004".

8. After regulation 13 (Witholding or recovery of payments) the following regulation is inserted -

"Application of penalties

13A. Pursuant to Article 73 of Commission Regulation 817/2004 the National Assembly will establish, and publish in such manner as it thinks fit, a system of proportionate penalties to be applied in the cases where claimants fail to comply with the provisions of these Regulations.".

9. In regulation 16 (Powers of authorised persons) in paragraph (3) -

(1) in sub-paragraph (c), delete the word "and";

(2) in sub-paragraph (d), for the punctuation mark "." substitute the punctuation mark and word "; and"; and

(3) after sub-paragraph (d), insert the following sub-paragraph -

"(e) carry out any inspection or examination necessary for the purposes of determining whether the Code of Good Farming Practice has been complied with.".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

4 Mai 2005

4 May 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1269 (Cy.89)

2005 No. 1269 (W.89)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005

The Tir Mynydd (Wales) (Amendment) Regulations 2005

©℗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091122-9

9 780110 911229

£3.00

W64/5/05 ON